Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Resilience Health

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2024
Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:


Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83625-239-9


© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

    - Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
    - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 10
    - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

4. Y camau nesaf .......... 13

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 14

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 15

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 16

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Resilience Health ar 26 Mawrth 2024. Mae'r clinig yn defnyddio apwyntiadau rhithwir i ymgynghori â chleifion ledled Cymru a'r DU.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a chyngor ar ffordd o fyw yn cael eu darparu i'r cleifion er mwyn helpu i atal cyflyrau iechyd cronig. Roedd yn ofynnol i'r cleifion gwblhau holiadur cyn asesu er mwyn nodi eu hanghenion iechyd a llesiant.

Gwelsom dystiolaeth fod cytundebau cydsynio yn cael eu cwblhau gan y cleifion a'r rheolwr cofrestredig cyn eu hymgynghoriad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a hyfforddiant ‘Treat me Fairly’.
- Roedd yr holiadur cyn asesu yn gofyn am ddewis rhagenwau'r cleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Caiff ymgyngoriadau ar-lein eu cynnal drwy ddefnyddio meddalwedd wedi'i hamgryptio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion. Byddai asesiad risg yn cael ei gwblhau er mwyn nodi peryglon posibl ac asesu lefel y risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw ymweliadau â chartref y cleifion.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol a dangosodd wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd.

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â chyfleoedd a hyfforddiant ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd i ddatblygu ei wybodaeth am unrhyw ganllawiau clinigol newydd neu ddiwygiedig.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i fanylion cyswllt y tîm diogelu lleol gael eu hychwanegu at y polisi Diogelu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus iawn ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli Resilience Health o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gallu dangos ei fod yn meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol er mwyn sicrhau bod trefniadau na ar waith ar gyfer llywodraethu a rheoli'r gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

**Diogelu a gwella iechyd**
Mae Resilience Health yn rhoi cyngor ar ffyrdd o fyw i gleifion er mwyn ceisio atal cyflyrau iechyd cronig. Gall y cleifion gael amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar bynciau fel cwsg, straen, ymarfer corff, maeth ac iechyd metabolaidd.

**Urddas a pharch**
Yn gyffredinol, cynhelir ymgyngoriadau ar-lein rhwng y person cofrestredig a phob claf. Mae'n ofynnol, gan y person cofrestredig, i'r cleifion fod mewn ardal breifat yn ystod yr ymgynghoriad lle y gallant siarad yn rhwydd heb i unigolion eraill eu clywed. Caiff cleifion eu hatgyfeirio at eu meddyg teulu lleol os bydd y rheolwr cofrestredig yn penderfynu bod angen iddynt gael archwiliad corfforol o ganlyniad i'w hymgynghoriad cychwynnol.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Caiff Canllaw i Gleifion y clinig ei ddarparu i bob claf cyn ei ymgynghoriad ar-lein. Gwelsom ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'i fod yn gyfredol. Roedd Datganiad o Ddiben cyfredol ar gael hefyd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y clinig ynghyd â gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir a sut y gellid cael y gwasanaethau hynny.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan y cleifion. Mae'n ofynnol i'r cleifion lofnodi cytundeb cydsynio cyn eu hymgynghoriad. Gwelsom dystiolaeth o gytundebau cydsynio a oedd wedi cael eu cwblhau yn ystod ein hadolygiad o gofnodion y cleifion.

**Cynllunio a darparu gofal**
Mae'n ofynnol i bob claf gwblhau holiadur cyn asesu er mwyn nodi eu hanghenion iechyd a llesiant cyn eu hymgynghoriad. Mae'r holiadur hefyd yn rhoi trosolwg o hanes meddygol pob claf. Yn dilyn ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd y cleifion yn cael eu cynghori i ymgymryd â phrofion diagnostig amrywiol ym mhreifatrwydd eu cartref eu hunain. Trafodir unrhyw ganlyniadau prawf abnormal â'r cleifion, a byddai'r cleifion hynny yn cael gwybod bod angen iddynt drefnu apwyntiad â'u meddyg teulu.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y caiff unrhyw anghenion ieithyddol eu trafod â'r cleifion yn ystod eu hymgynghoriad. Fodd bynnag, er y byddai'r gwasanaeth yn ceisio defnyddio gwasanaeth cyfieithu yn ôl yr angen, dim ond yn Saesneg y gallai'r rheolwr cofrestredig hwyluso ymgyngoriadau yn ymarferol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn deall eu diagnosis a'u hopsiynau o ran triniaeth yn llawn. Gwnaethom argymell y byddai, o bosibl, yn fuddiol gofyn i'r cleifion am eu hanghenion ieithyddol fel rhan o'r holiadur cyn asesu er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw rwystrau ieithyddol posibl ar gam cynharach.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol ar waith a dywedwyd wrthym y byddai pob claf yn cael ei drin yn gyfartal. Roedd yr holiadur cyn asesu yn gofyn am ddewis rhagenwau'r cleifion a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth a hyfforddiant 'Treat me Fairly'.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod ffurflen adborth ar gael er mwyn i gleifion roi adborth ar eu profiadau. Fodd bynnag, oherwydd mai nifer bach o gleifion oedd wedi cael eu gweld gan y rheolwr cofrestredig, nid oedd y ffurflenni adborth wedi cael eu rhannu eto. Yn hytrach, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd cyfathrebu ar-lein yn rheolaidd a chynnal sesiynau dilynol er mwyn pennu boddhad y cleifion o ran eu gofal.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni mai dim ond ar adegau prin y mae wedi ymweld â chlaf yn ei gartref ei hun yn y gorffennol. Gwelsom fod polisi Gweithiwr Unigol cyfredol ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn i amddiffyn y rheolwr cofrestredig wrth ymweld â chleifion yn eu cartref eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg er mwyn nodi peryglon posibl ac asesu lefel y risg sy'n gysylltiedig â'r ymweliad.

**Rheoli meddyginiaethau**
Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw'n storio meddyginiaeth yn y clinig nac yn ei rhagnodi i'r cleifion.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol a dangosodd wybodaeth dda am y gweithdrefnau diogelu a'r trefniadau adrodd. Roedd polisi Diogelu cyfredol ar waith er mwyn helpu i hyrwyddo a diogelu oedolion agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y polisi yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

**Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r polisi Diogelu i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol pe bai mater diogelu yn codi.**

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Mae'r rheolwr cofrestredig yn dadansoddi'r holiaduron cyn asesu a'r trafodaethau yn ystod pob ymgynghoriad er mwyn penderfynu ar brotocol ar gyfer pob claf yn seiliedig ar ei ganlyniadau. Gall y cleifion adolygu'r protocol hwn a phenderfynu p'un a ydynt am ei ddilyn.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni ei fod yn cael rhybuddion a bwletinau diogelwch fel rhan o'i swydd arall ym maes gofal sylfaenol ac y byddai'n defnyddio'r hyn y mae wedi'i ddysgu yn ei rôl yn y clinig. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd yn aelod o weithgorau proffesiynol lle y gallai ofyn am gyngor ar faterion clinigol yn ôl yr angen.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi ymgymryd â chyfleoedd a hyfforddiant ar ddatblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd i ddatblygu ei wybodaeth am unrhyw ganllawiau clinigol newydd neu ddiwygiedig.

**Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**
Caiff ymgyngoriadau ar-lein eu cynnal drwy ddefnyddio meddalwedd wedi'i hamgryptio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw ymgyngoriadau ar-lein yn cael eu recordio.

**Rheoli cofnodion**
Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf, a nodwyd eu bod yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy. Roedd y cofnodion yn hawdd eu dilyn ac yn rhoi trosolwg o'r cyngor a'r driniaeth glinigol berthnasol a gynigir i'r cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Resilience Health ac yn ei redeg. Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod yn ddigonol ac yn cydymffurfio â gofynion rheoliadol. Roedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn y gwasanaeth, ar adeg ein harolygiad, yn unol ag amodau cofrestru AGIC.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd polisi cwynion manwl ar waith. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben a'r Canllaw i Gleifion. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd wedi cael unrhyw gwynion hyd yma.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Am mai'r rheolwr cofrestredig yw'r perchennog a'r unig gyflogai nid oedd cofnodion cynllunio gweithlu'r cyflogeion i'w harolygu.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Rhoddwyd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol i ni ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw unig gyflogai'r clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion** | **Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Resilience Health

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Resilience Health

**Dyddiad arolygu:** 26 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd y polisi Diogelu yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol. | Rhaid i'r gwasanaeth ddiweddaru'r polisi Diogelu i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol pe bai mater diogelu yn codi. | Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed | Mae'r polisi Diogelu wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol yn ardal Caerdydd a'r Fro. Gan ei bod yn bosibl nad yw'r cleientiaid yn byw yn yr ardal hon, gellir dod o hyd i dîm diogelu yr ardal drwy chwilio "pwy yw'r tîm diogelu lleol ar gyfer (enw'r ardal)". | Dr Rini Chatterjee | 1 wythnos |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** **Rini Chatterjee**

**Teitl swydd:** **Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad:** **29 Mai 2024**